
# Harbwr Diogel 10

# Calm Waters 10



## Gwybodaeth

## Information

www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

# Harbwr Diogel 10

**Mae harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd yn atyniadau ac adnoddau gwych o'u rhan eu hunain. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pethau'n dawel yn yr harbyrau a'u bod yn parhau'n ddiogel, deniadol a dymunol i bawb rydym yn atgoffa defnyddwyr o rai pethau allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, a'u bod yn eu gweithredu.**



### Cofiwch:

1. Fod yn ystyriol a pharchus bob amser o holl ddefnyddwyr eraill yr harbyrau a'r cyhoedd.
2. Bod yn ystyriol a pharchus bob amser o fywyd gwyllt lleol, a'i werthfawrogi.
3. Gwneud yn siŵr bod eich cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ei fod mewn cyflwr da ac yn addas i'r diben. Mae hyn yn cynnwys offer angori, cadwyni, rhaffau, angorau a dyfeisiau angori eraill. Dylech wirio'r rhain i gyd yn rheolaidd.
4. Ymdrin â'ch holl wastraff yn gyfrifol a chyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ac yn rhychwantu offer pysgota wedi'i ddefnyddio ac olew gwastraff.
5. Storio'r holl gyfarpar yn ddiogel ac mewn man priodol. Mae hyn yn cynnwys cychod tendio, bwiau, potiau a chyfarpar pysgota arall.
6. Peidio ag achosi rhwystr neu niwsans naill ai ar ochr sych neu wlyb yr harbyrau. Mewn argyfwng, gallai mynediad clir fod yn hanfodol. Dylech barcio ceir yn unol â threfniadau'r lle a'r ddarpariaeth sydd yno.
7. Ymateb yn gadarnhaol i gyngor neu gyfarwyddyd a roddir gan unrhyw un o staff yr Harbyrau.
8. Codi unrhyw fater, pryder neu awgrym a all fod gennych gyda staff yr Harbyrau ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar unrhyw ddiffyg neu ddifrod y gallwch ddod yn ymwybodol ohono yn yr harbyrau.
9. Cysylltu â 999 mewn unrhyw fath o argyfwng.

**Rheolir yr Harbyrau yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.**

- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion,
- Is-ddeddfau,
- Cyrsiau a Phellteroedd Morol,
- Tablau Llanw Lleol,
- Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau,
- Anifeiliaid Morol yn Sownd ar Lan y Môr, a
- Diogelwch

Gellir cael y wybodaeth uchod yn: Yr Arfordir a Phorthladdoedd

**Dylai Defnyddwyr Harbyrau ymgyfarwyddo â'r wybodaeth hon i gyd a gwneud yn siŵr eu bod yn ymddwyn yn unol â hynny bob amser. Mae'r dogfennau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd felly dylid eu gwirio'n gyson.**

**Diweddariadau:**

**(1) Diweddariadau Tîm Gwasanaeth yr Harbyrau**

Bydd Chloe yn dychwelyd i'w rôl fel Cynorthwyydd Harbwr Tymhorol. Mae Eve wedi gadael ei swydd ers hynny, ac mae Gwasanaeth yr Harbyrau wrthi'n trefnu recriwtio ei holynydd ar hyn o bryd.

**(2) Gwaith Harbyrau**

Mae Gwasanaeth yr Harbyrau wedi cael gaeaf prysur yn cynllunio ac yn trefnu gwaith ar draws pob un o Ystadau'r Harbyrau. Bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn amlwg i'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r harbyrau neu wedi cynnal presenoldeb ynddynt trwy gydol tymor y gaeaf.

- Goleuadau Arweiniol Newydd yn Aberystwyth
  - Mae Goleuadau Arweiniol newydd wedi'u gosod ac nid ydynt wedi'u sefydlu eto yn Harbwr Aberystwyth. Bydd y goleuadau arweiniol newydd yn helpu defnyddwyr yr harbwr i ddynesu at yr harbwr yn ddiogel. Bydd Hysbysiadau Lleol i Forwyr yn cael eu defnyddio i hysbysu defnyddwyr yr harbwr a rhanddeiliaid ynghylch y mater hwn.

- Cymhorthion Mordwyo
  - Mae gwaith cynnal a chadw i Gymhorthion mordwyo yn Aberystwyth a Cheinewydd yn cael ei gaffael ar hyn o bryd, a disgwylir y bydd yn cael ei gwblhau yn ystod y misoedd nesaf. Mae gwaith i unioni diffyg ar y sector wedi'i gwblhau'n ddiweddar.

- Cylchoedd Angori yng Ngheinewydd
  - Mae gwaith i ailosod rhai o'r cylchoedd angori yng Ngheinewydd wedi'i gomisiynu. Mae'r cylchoedd wedi'u cynhyrchu a'u darparu ac rydym yn aros i'r gosodiad gael ei gwblhau.

- Gwaith Carthu a Gwaredu Malurion
  - Mae Mynedfa Harbwr Aberaeron wedi'i charthu, ac mae malurion wedi'u gwaredu o fasn yr harbwr cyn Tymor yr Haf. Mae gwaith pellach i ailraddio rhannau o'r Harbwr ac i godi cadwyni wedi'i gynllunio i ddigwydd yn ddiweddarach ym mis Mawrth.
  - Mae gwaith carthu Ceinewydd wedi dechrau. Mae gwaith carthu Aberystwyth yn cael ei ail-drefnu ar gyfer diwedd mis Mawrth.
  - Mae diweddariadau trwy Hysbysiadau Lleol i Forwyr wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â'r gwaith unwaith y bydd dyddiadau wedi'u cadarnhau gyda'r contractwr. Bydd trefniadau gwaith Aberaeron hefyd yn cael eu cyfathrebu drwy Hysbysiadau Lleol i Forwyr a thrwy e-bost.

- Gwaith Pontŵn Canolog Aberystwyth
  - Mae gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio Pontŵn Canolog Aberystwyth wedi dechrau. Mae Defnyddwyr yr Harbwr yr effeithir arnynt wedi cael gwybod a, lle bo'n briodol, mae trefniadau angori dros dro wedi'u gwneud. Mae Cyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi yn dweud bod y

pontŵn ar gau ac na ddylai Defnyddwyr yr Harbwr geisio defnyddio'r pontŵn yn ystod y cyfnod y mae'r Cyfarwyddyd yn parhau i fod yn ei le. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith yn cael ei chyfleu drwy Hysbysiadau Lleol i Forwyr, ac yn uniongyrchol gyda deiliaid angorfeydd yr effeithir arnynt.

- Peintio Llinellau Aberystwyth
  - Bydd Peintio Llinellau yn Harbwr Aberystwyth yn mynd rhagddo cyn gynted â phosibl ar ôl y codi i mewn yn Harbwr Aberystwyth.

**(3) Swyddfa Harbwr Aberystwyth**

Mae Swyddfa Harbwr Aberystwyth bellach yn weithredol a bydd Tîm yr Harbyrau yn cynnal presenoldeb mwy rheolaidd yn yr harbwr nawr bod y cyfleuster newydd ar waith.

**(4) Cyfarfodydd Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau**

Oherwydd y Cyfnod Sensitifrwydd Cyn yr Etholiad sydd ar ddod, mewn newid bach i'r amserlen arferol o gyfarfodydd Pwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr Harbyrau a gynhelir ddiwedd mis Mawrth a mis Hydref, cynhelir y cyfarfod nesaf ar **28 Mai 2026**. Er mwyn cefnogi ymgysylltu â Defnyddwyr Harbyrau, trefnwyd Cymorthfeydd Harbwr ychwanegol ar gyfer Mawrth 2026 ar y dyddiadau canlynol:

Aberaeron – dydd Mercher 25 Mawrth 14:00 – 15:00

Aberystwyth – dydd Mawrth 31 Mawrth 14:00 – 15:00

Cei Newydd – dydd Iau 26 Mawrth at 14:00 – 15:00

Er bod y Pwyllgorau'n rhoi cyfle i drafod materion, mae yna lawer o ffyrdd parhaus y gall rhanddeiliaid gysylltu trwy gydol y flwyddyn â Gwasanaeth yr Harbyrau ynghylch materion o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys yn bersonol yn yr Harbyrau, drwy Clic, canolfan gyswllt y Cyngor: clic@ceredigion.gov.uk / 01545 570881 neu drwy'r Cymorthfeydd Harbwr misol. Rydym yn annog rhanddeiliaid i wneud hynny er mwyn ymchwilio i faterion mewn modd amserol.

**(5) Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron**

Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron bellach wedi'i gwblhau. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r cynllun yn agos wrth iddo setlo dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, a bydd yn gweithredu lle bo'n briodol os bydd problemau yn codi. Mae'r gwaith monitro hwn a'r dull hwn o weithredu eisoes wedi'u dangos trwy'r gwaith carthu diweddar a wnaed wrth fynedfa'r harbwr yn dilyn ffurfio cefnen graean.

Atgoffir defnyddwyr yr harbyrau o bwysigrwydd monitro [Hysbysiadau Lleol y Cyngor i Forwyr](#) yn rheolaidd sy'n rhoi gwybodaeth hanfodol yn ymwneud â diogelwch mordwyo.

### (6) Iechyd a Diogelwch

Rhoi gwybod am Ddigwyddiadau a Damweiniau

Mae digwyddiadau rhybuddio llai yn digwydd cyn y rhan fwyaf o ddamweiniau morol difrifol.

Mae Gwasanaeth yr Harbyrau yn atgoffa holl ddefnyddwyr yr harbyrau — hamdden a masnachol — o'u cyfrifoldeb i roi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd o fewn terfynau atfor yr harbwr ac ar ystâd yr harbwr, hyd yn oed lle nad oes dim anaf na difrod sylweddol wedi bod.

Nid oes angen i ddigwyddiad fod yn ddramatig i fod yn bwysig. Gall sefyllfa agos rhwng cychod, mân gysylltiad â phontŵn neu wal harbwr, tirio ar lanw sy'n cwympo, methiant injan neu fethiant mordwyo dros dro, neu berson sy'n llithro ar lithrfa i gyd fod yn gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu. Mae hyd yn oed sefyllfa a "allai fod wedi bod yn waeth" yn werth rhoi gwybod amdani.

Trwy rannu gwybodaeth, mae defnyddwyr harbyrau yn helpu Awdurdod yr Harbyrau i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, asesu a oes angen rhoi unrhyw fesurau lliniaru ar waith ac i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol.

Nid yw rhoi gwybod yn ymwneud â rhannu bai. Mae'n ymwneud ag atal. Mae digwyddiadau llai yn aml yn tynnu sylw at batrymau neu broblemau sy'n datblygu y gellir mynd i'r afael â nhw cyn i rywbeth mwy difrifol ddigwydd.

Os bydd digwyddiad neu ddamwain fu bron â digwydd, rhowch wybod i ni naill ai'n bersonol yn Swyddfa'r Harbwr neu drwy Clic@ceredigion.gov.uk neu 01545 570 881 cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

### (7) Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol

Mae'r Cyngor wedi penodi Jonathan Warren fel y Person Dynodedig annibynnol yn dilyn ymarfer caffael. Mae Jonathan wedi cynnal archwiliad allanol o Wasanaethau'r Harbyrau yn unol â gofynion y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol.

Gellir gweld gwybodaeth am y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol a Chynllun Diogelwch Morol y Cyngor ar ein [tudalen we](#).

### (8) Cyfarfod Rhanbarthol Cymru UKHMA

Roedd Aberystwyth, ac yn ehangach Ceredigion, yn falch o gynnal Cyfarfod Rhanbarthol Cymru Cymdeithas Harbwrfeistri y Deyrnas Unedig ar 29ain Hydref 2026 a gynhaliwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Roedd y cyfarfod rhanbarthol yn llwyddiant, roedd croeso iddo ac roedd yn gynhyrchiol ac yn fewnweledol.

Mynychwyd y cyfarfod gan Harbwrfeistri o bob cwr o Gymru, gan gynrychioli amrywiaeth o borthladdoedd, harbyrau, cyfleusterau a gweithrediadau morol. Hoffem ddiolch i Martin Willis ac Alan Mcpherson o'r UKHMA a staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru a helpodd i gefnogi a hwyluso'r cyfarfod.

**(9) Cymorthfeydd Harbyrau**

Aberystwyth- Dydd Mawrth olaf pob mis am 14:00

Aberaeron – Dydd Mercher olaf pob mis 14:00

Ceinewydd – Dydd Iau olaf pob mis 14:00

Bydd unrhyw newidiadau i'r amserlen yn cael eu cyfathrebu â Defnyddwyr yr Harbyrau

**Cysylltu ac Adborth**

Noder: Nid yw blwch e-byst y gwasanaethau technegol bellach yn cael ei ddefnyddio ac nid yw'n cael ei fonitro.

Os hoffech gysylltu â Gwasanaeth yr Harbyrau, gallwch wneud hynny drwy:

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Ffôn: 01545 570 881

Post: Cyngor Sir Ceredigion

Canolfan Rheidol

Rhodfa Padarn

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3UE

Rydym bob amser yn croesawu ac yn annog adborth adeiladol gan randdeiliaid ac edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych chi.

**Gyda diolch gan,**

**Gwasanaeth yr Harbyrau**

*Owen Morgan AFNI HM Cert, Rheolwr yr Harbyrau*

*Robyn Beresford, Arweinydd Gwaith Harbyrau*

# Harbwr Diogel 10

# Calm Waters 10



www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love
Ceredigion